Cardiff Partnership for Initial Teacher Education | Partneriaeth Caerdydd ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**TAR Mathemateg Pecyn Gwybodaeth Ymuno: Cychwyn Medi 2023**

Helô Bawb

Er mwyn cael y blaen ar yr hyn a fydd yn flwyddyn brysur, heriol a chyffrous o'n blaenau, cyflawnwch y tasgau canlynol cyn Medi 4 2023. Byddant yn rhoi man cychwyn da i chi o ran peth o'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch chi'n eu datblygu ymhellach wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen. Dilynwch yr hyperddolenni yn y ddogfen hon i'r tudalennau gwe perthnasol.

Ar ôl i chi gofrestru, cewch eich ychwanegu at dudalen Timau Microsoft o'r enw *PGCE Mathematics 2023-24*. Hwn fydd fy mhrif sianel i gyfathrebu â chi gydol y flwyddyn.

1) **CADARNHAU EICH LLE**
Pan dderbyniwch y pecyn hwn, anfonwch e-bost ataf yn cgstewart@cardiffmet.ac.uk i gadarnhau y byddwch yn dechrau gyda ni ym mis Medi 2023.

2) **GWNEWCH RYWFAINT O FATHEMATEG**
Cyrchwch adrannau cyn-bapurau gwefan CBAC. Dilynwch y ddolen yma i ddarganfod mwy am y TGAU Mathemateg 3 haen cyfredol i Gymru (Mathemateg a Mathemateg - Rhifedd - 3 Haen) a sut mae pethau wedi newid ers 2016. Mae rhai o'r cyn-bapurau Mathemateg a Mathemateg - Rhifedd 3 Haen newydd ar gael ar y wefan hefyd. **Argraffwch a chwblhewch** y papurau canlynol:

**TGAU HAF 2022 – MATHEMATEG UNED 1 UWCH – PAPUR CWESTIWN**

**TGAU HAF 2022 - MATHEMATEG UNED 2 UWCH – PAPUR CWESTIWN**

**TGAU HAF 2022 – MATHEMATEG RHIFEDD UNED 1 UWCH – PAPUR CWESTIWN**

**TGAU HAF 2022 – MATHEMATEG RHIFEDD UNED 2 UWCH – PAPUR CWESTIWN**

Wrth i chi weithio trwy'r papurau TGAU, meddyliwch am rai o'r camdybiaethau y credwch y gallai fod gan ddisgyblion gyda rhai o'r cwestiynau ac ysgrifennwch rai ohonynt i lawr. Byddwch yn barod i ddod â'r papurau hyn a'ch syniadau gyda chi ym mis Hydref. Mae bod yn ymwybodol o gamdybiaethau disgyblion a'u datgelu yn hanfodol i helpu i gynllunio addysgu a dysgu ym MHOB dosbarth. **Bydd gwybodaeth pwnc dda ar y lefel hon yn ffactor hanfodol i flwyddyn lwyddiannus.**

Bu rhai newidiadau diweddar hefyd i fanylebau Safon Uwch a archwiliwyd am y tro cyntaf yn Haf 2018. Edrychwch ar y fanyleb yma a chyrchwch bapur Safon UG Mathemateg Pur Blwyddyn 12 hefyd i wirio'ch gwybodaeth gyfredol ar y lefel hon.

3) **GWNEWCH RYWFAINT O DDARLLEN**
Dechreuwch ddarllen rhywfaint o lenyddiaeth ar addysgu a dysgu yn yr ysgol uwchradd. Man cychwyn cyffredinol da yw'r llyfr 'Effective Teaching' gan Daniel Muijs a David Reynolds. Bydd Darllen Penodau 1 i 7 y llyfr hwn yn ddefnyddiol iawn. Darlleniad hawdd ei ddarllen, defnyddiol ac ymarferol sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu mathemateg yw 'The Perfect Maths Lesson' gan Ian Loynd - mae Ian yn gweithio yn un o'n hysgolion partner ac yn ymwelydd rheolaidd â Met Caerdydd. Llyfr diddorol iawn arall yw'r un gan Craig Barton – How I wish I'd Taught Maths. Mae'r llyfrau hyn ar gael yn y llyfrgell ar ôl i chi gofrestru neu gellir eu darganfod ar Amazon Marketplace.

Hefyd, ymgyfarwyddwch â gwefan Hwb a chyda'r dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â

mathemateg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a'r cwricwlwm newydd arfaethedig sydd i fod i gael ei weithredu yn 2022

Mathemateg Cwricwlwm Cymru 2008 (cwricwlwm cyfredol) Cwricwlwm Newydd i Gymru

Pob lwc gyda'r tasgau hyn. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i gyd ym mis Medi.

**Cameron Stewart**
**Arweinydd Rhaglen: TAR Mathemateg Uwchradd**